



Rydan ni'n symud! Mae ein prif swyddfa yn awr yn festri Capel Peniel yn Nhremadog.

Er bod angen gwaith atgyweirio sylweddol ar yr adeilad, mae ei gyflwr yn ddigon da i'n galluogi ni i ddefnyddio'r hen ysgoldy fel swyddfa. Mae'r symud hefyd yn arwydd o'n bwriad i gynyddu ein gweithgaredd o fewn y cymunedau lleol hynny sydd yn gartref i'n hadeiladau, gwaith mae Christine Moore ein Swyddog Datblygu newydd yn ymgymryd ag ef gyda'r Ymddiriedolaeth. Yn anffodus, mae hefyd yn gyfnod o ansicrwydd i'r Ymddiriedolaeth wrth i arian brinhau, ac mae'n rhaid felly gwneud i bob punt fynd ychydig bach yn bellach. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth – mae'n cael ei werthfawrogi'n arw! Rydan ni yn croesawu cyfeillion a chefnogwyr lleol ym mhob un o'n prosiectau amrywiol!

Os nad ydych eisoes yn Gyfaill i'r Ymddiriedolaeth – a fydddech chi'n fodlon ein cefnogi a'n helpu yn ein gwaith?

Mae bod yn aelod o'r Cyfeillion yn agored i bawb ar gost o £10 y flwyddyn; amgaewn ffurflen aelodaeth a ffurflen archeb banc. Neu gallwch gysylltu â swyddfa'r Ymddiriedolaeth. I'r rhai ohonoch sydd eisoes yn aelodau - pam na roddwch chi'r ffurflen aelodaeth i rywun a allai fod â diddordeb?



Hen Dŷ Cwrdd yn dilyn y gwaith atgyweirio

Atgyweirio Hen Dŷ Cwrdd

Cwblhawyd rhan gyntaf gwaith atgyweirio Hen Dŷ Cwrdd, addoldy gradd II Undodaidd yr Ymddiriedolaeth yn Nhrecynon, Aberdâr, ym mis Ebrill 2010. Roedd y gwaith yn cynnwys gosod to llechi Cymreig newydd, atgyweirio'n gyfangwbl yr holl ffenestri a'r drysau, a phwytho craciau yn y waliau allanol. Ariannwyd y gwaith gan Cadw, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cynllun Grantiau Mannau Addoli Rhestredig, a rhoddion preifat. Stafford Construction Ltd oedd y

contractwr, a oedd yn gweithio o dan oruchwyliaeth ein pensaer Richard Spencer Dean. Mae cwblhau'r rhan gyntaf yn cyddaro â gosod Plac Glas yn Hen Dŷ Cwrdd gan GBS Rhondda Cynon Taf. Mae'n un o 30 o safleoedd allweddol a ddewiswyd yn y sir sy'n coffáu digwyddiadau, pobl a lleoedd nodedig. Bydd y safleoedd hyn yn sail i lwybr treftadaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn obeithiol y bydd yn gallu bwrw ymlaen ag ail ran y gwaith atgyweirio yn ystod y flwyddyn nesaf, gan ganolbwyntio ar y tu mewn.



Pulpud Peniel

Trosglwyddo Peniel Tremadog i'r Ymddiriedolaeth

Pan gwblhawyd trosglwyddiad Peniel, Tremadog, oddi wrth Eglwys Bresbyteraidd Cymru i'r Ymddiriedolaeth ym mis Chwefror 2010, ychwanegwyd un o'r ychydig gapeli gradd I yng Nghymru at yr adeiladau sydd ym meddiant yr Ymddiriedolaeth.

Elfen allweddol yng nghefnidir adeiladu'r capel oedd codi'r morglawdd, Y Cob (1808-1812), gan William Alexander Madocks, Aelod Seneddol Boston.

Llwyddwyd i adennill tir o'r môr ym Mae Ceredigion, a'r canlyniad oedd draeniad Y Traeth Mawr a sefydlu trefi Tremadog, ac yna, yn ddiweddarach, Porthmadog. Cynhaliwyd oedfaon mewn tai lleol gan Fethodistiaid Calфинаidd a ddenwyd i Dremadog, a chychwynwyd cynnal Ysgol Sul yn 1805 ar anogaeth Thomas Charles o'r Bala. Sylweddolwyd yr angen am gapel gan i'r

boblogaeth barhau i gynyddu, ac anfonwyd at Madocks ddeiseb a arwyddwyd gan nifer o arweinwyr y Methodistiaid yn cyflwyno cais am dir ar gyfer codi capel. Cafwyd darn o dir ar les 99 mlynedd am rent o bupren (*peppercorn*). Beirniadwyd Madocks yn llym gan Esgob Bangor am gytuno i'r cais, ond ei ymateb oedd iddo godi eglwys â chraig yn sylfaen iddi, ond bod y tir ar gyfer y capel ar ochr arall y ffordd, ar y tywod! Serch hynny, ystyriwyd yr eglwys a'r capel fel nodweddion annatod o adeiladau cyhoeddus tref newydd Tremadog a gynlluniwyd gan Madocks.

Cychwynwyd adeiladu'r capel yn 1808. Pan agorwyd y capel yn 1810, yr oedd y rhai a eisteddai yn amlwg yn y pen blaen yn cynnwys Madocks a nifer o aelodau o'i deulu; Thomas Charles a John Elias, arweinwyr y Methodistiaid; a Twm o'r Nant, y bardd a chyfansoddwr anterliwtiau, a weithiai fel saer maen ar adeiladu'r morglawdd. Cofrestrwyd y capel dan yr enw

'Peniel' ar 14 Mawrth 1810. Y gost oedd £858 10s 6d, gan gynnwys taliadau o £264 am goed, £150 i'r seiri maen, a £121 i'r seiri coed.

Yn dilyn cynnydd yn yr aelodaeth adeiladwyd galeri ar un ochr yn 1840, ac yn 1849 ychwanegwyd portico agored mewn arddull Clasurrol, wedi ei gynnal ar golofnau Tysgaidd crwn. Archwiliwyd y gwaith gan John Williams, stiward stad Tremadog, a chyflwynwyd ganddo £10 tuag at y costau gan fod cynnwys y colofnau yn rhan o'r cynllun gwreiddiol. Rhoddwyd yn y capel gwreiddiol seddau ar hyd y ddwy ochr a meinciau ar ganol y llawr. Ychwanegwyd eisteddleoedd yn 1860, ac yn 1905 yr oedd 600 ohonynt yn y capel a 100 yn yr ysgoldy a godwyd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Estynnwyd y galeri dros dair ochr y capel yn 1880, gosodwyd pulpud newydd a sêr fawr gain yn 1898, a darparwyd y nenfwd presennol yn 1908. Defnyddiwyd nwy i oleuo'r capel yn 1857, a chyflwynwyd trydan yn 1953.



Gwaith plastr addurniadol ac offer goleuo nwy Peniel

Pwysleisiwyd arwyddocâd pensaernïol y capel gradd I hwn, a ddisgrifiwyd yn 'gem o gapel', yn y cofnod yn *Newyddlen 3* (Haf 2009), a seiliwyd ar adroddiad gan John Hilling, Ymgynghorydd Pensaernïol yr Ymddiriedolaeth. Mae'n debyg i'r adeilad Clasurol arddangos dylanwad Eglwys Sant Paul yn Covent Garden, Llundain (1638), a gynlluniwyd gan Inigo Jones. Yr oedd nodweddion anghyffredin y capel yn cynnwys graddfa helaeth a thalcen blaen, mewn cyferbyniad â'r duedd yn y cyfnod hwnnw mewn capeli bychan, gyda ffasâd wal-hir a'r pulpud wedi ei osod rhwng y ddau brif ddrws. Yn raddol mabwysiadwyd yr arddull hwn yn gyffredinol yng Nghymru, ac ystyrir Peniel o bwysigrwydd arbennig yn y broses gyda chynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi manteision profiad awditoriwm.

D. Huw Owen

Darllen pellach

Beazley, Elisabeth, *Madocks & the Wonder of Wales* (1967, 2nd ed. 1985)

Haslam, Richard, Orbach, Julian, Voelcker, Adam, *The Buildings of Wales*, Gwynedd (2009)

Jones, R. G., *Hanes Cychwyn yr Achos yn Nhremadog, Peniel M. C.* (1960)

Owen, D. Huw, *Capeli Cymru* (2005)

Trosglwyddo Capel Peniel

Cynhaliwyd cyfarfod ar 18 Chwefror 2010 gan Eglwys Peniel i ddathlu 200 mlynedd i'r diwrnod ers agor Capel Peniel. Dyma hefyd oedd y dyddiad y trosglwyddwyd yr adeilad yn gyfreithiol i'r Ymddiriedolaeth – am y swm nominal o £100. Roedd cyfarfod pellach ar 30 Mawrth 2010 i drosglwyddo Peniel yn ffurfiol i'r Ymddiriedolaeth. Mae cynulleidfa Eglwys Peniel yn parhau i addoli ac wedi symud i'r Neuadd Goffa ar y sgwâr yn Nhremadog.



Parch Gareth Edwards, gweinidog Peniel, yn cyflwyno gorriad Peniel i'r Parch Dafydd Owen, cadeirydd YAC



Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth yn catalogio papurau Bethania

Gweithio gyda Phrifysgol Aberystwyth

Mae papurau a dogfennau a drosglwyddwyd i'r Ymddiriedolaeth gyda chapel Bethania, Maesteg, yn destun prosiect catalogio gan fyfyrwyr sy'n dilyn cwrs Archifau a Rheoli Cofnodion yn Adran Astudiaethau Gwybodaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Caiff y catalogio ei wneud yn Archifdy Ceredigion, a bydd y papurau yn cael eu hadneuo yn Archifdy Morgannwg.

Diweddarau cronfa ddata Capeli

A fedrwch chi helpu'r Comisiwn Brenhinol i gofnodi statws cyfredol eich capel lleol? Mae'r Comisiwn yn cadw cronfa ddata o ryw 6,626 o gapeli Cymru ac mae ganddi ddata ar bron i 3,000, ond mae dal angen gwybodaeth gyfredol ar y 3,600 sy'n weddill. Os hoffech chi helpu gyda'r prosiect, cysylltwch â Susan Fielding ar susan.fielding@rcahmw.gov.uk neu: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Adeilad y Goron, Plascrug, Aberystwyth, SY23 1NJ.

Fandaliaeth yng Nghapel Bethania

Mae Bethania, capel gradd II* yr Ymddiriedolaeth ym Maesteg, yn parhau i fod dan gysgod fandaliaeth. Ar ddiwedd 2009 cafodd darn sylweddol o blwm a oedd yn gorchuddio'r to fflat sy'n cysylltu'r festri fawr i gefn y prif gapel ei ddwyn, gan adael coed y to yn agored i'r elfennau. Yn anffodus yr oedd yn gyfnod o law trwm, ac nid yw'r ychydig bunnoedd y byddai'r lladron wedi eu derbyn yn cymharu â'r difrod sylweddol a wnaed i lyfrau llyfrgell y capel a oedd wedi'u storio yn yr ystafell islaw. Gosodwyd llen di-blwm dros dro i orchuddio'r to yn lle'r plwm - gwaith a gwariant y gallai'r Ymddiriedolaeth wneud hebdo. Yn anffodus, yn ystod y gaeaf diwethaf fe ddychwelodd y lladron, y tro hwn i ddwyn yr hyn oedd yn weddill o blwm y to a'r lapiadau plwm o'i amgylch. Mae capeli ac eglwysi ar hyd a lled Cymru yn agored i weithredoedd tebyg, ble mae'r goblygiadau i berchnogion yr adeilad yn llawer mwy difrifol na'r manteision a gai'r lladron. Mae'n drueni nad yw masnachwyr metel sgrap yn fwy ymholgar.



Christine Moore,
Swyddog Datblygu YAC

Swyddog Datblygu newydd

Yn dilyn ymddediad Neil Sumner (sy'n parhau fel ymddiriedolwr), mae'r Ymddiriedolaeth wedi penodi Christine Moore fel ei Swyddog Datblygu newydd. Mae Christine, a ddechreuodd weithio i'r Ymddiriedolaeth ym mis Medi 2010, wedi ymgymryd ag amryw o swyddogaethau yn y sector gwirfoddol ac mae ganddi brofiad sylweddol o ran ymgysylltu â'r gymuned, codi arian a rheoli prosiectau. Mae hi'n brysur ddod i ymgysylltu gyda'n pum capel yn ne a gorllewin Cymru ynghyd â'u hamrywiol broblemau, yn cyfarfod cefnogwyr a rhanddeiliaid, ac yn gweithio'n galed i ganfod yr adnodd hwnnw sy'n brysur brinhau, sef arian. Mae'r ymddiriedolwyr yn falch iawn o'r hyn y mae wedi'i gyflawni hyd yma.

Twristiaeth Ffydd yng Ngheredigion

Fel gwarcheidwaid yr Hen Gapel, Llwynrhydowen, mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi prosiect Twristiaeth Ffydd yng Ngheredigion, sy'n cael ei arwain gan Gyngor Sir Ceredigion a'i ariannu gan Echel 4 Cynllun Datblygu Gwledig yr Undeb Ewropeaidd. Nod y prosiect yw hyrwyddo twristiaeth aml-ffydd ac aml-enwadol yng Ngheredigion gan adrodd hanes datblygiad a mynegiant ffydd yn y sir o'r cyfnodau cynharaf, ynghyd â sut y caiff y ffydd hwnnw ei ddathlu heddiw. Fe nodwyd themâu a phrif nodweddion i'r prosiect, gan gynnwys "Smotyn Du" nodedig Undodiaeth Ceredigion. Comisynwyd ymgynghorwyr treftadaeth Trysor i baratoi deunydd dehongli cydgyssylltiedig ar gyfer safleoedd Undodaidd arwyddocaol Ceredigion, gan gynnwys yr Hen Gapel, Llwynrhydowen. Caiff y rhain yn eu tro eu cysylltu â safleoedd crefyddol eraill o bwys yn y sir, gan gynnwys Cilgwyn, Llangeitho, y Gysegrfa Genedlaethol Gatholig yn Aberteifi, Llanddewi Brefi, ac Ystrad Fflur. Cynhyrchir deunydd hyrwyddo a gwefan benodol: www.ceredigionfaithtrail.com ar gyfer y prosiect.

Cynhadledd Addoldai Hanesyddol Cymru

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn cynnal cynhadledd undydd i hyrwyddo gwybodaeth a thrafodaeth ar bob dim sy'n ymwneud â gofalu am fannau addoli hanesyddol yng Nghymru ar Dydd Mawrth 17 Mai, 2011 yn Eglwys Gadeiriol Llandaf a Choleg Mihangel Sant, Caerdydd.

Mae'r gynhadledd yn cynnwys nifer o weithdai. Am fwy o fanylion cysylltwch â Tina Andrew, Swyddog Cadwraeth a Threftadaeth yr Eglwys, ffôn: 029 2034 8226, e-bost: tinaandrew@churchinwales.org.uk

Drysau Agored 2011

Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu agor y drysau yn Hen Dŷ Cwrdd, Yr Hen Gapel, Llwynrhydowen a Pheniel ym mis Medi fel rhan o Drysau Agored, Dyddiau Treftadaeth Ewropeaidd, sy'n cael eu cynnal drwy gydol mis Medi ac sy'n cynnig mynediad am ddim i'r cyhoedd i leoedd ac adeiladau o ddiddordeb hanesyddol a phensaernïol. Os ydych chi'n meddwl y gallwch chi ein helpu cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth!



Trefnir Drysau Agored gan Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru
Ffôn. 029 2034 3336
www.civictrustwales.org

Mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn cymorth grant gan Cadw, adran amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, i gynnal rhan sylweddol o'i chostau beunyddiol.

Cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth am ragor o wybodaeth. Byddwn yn falch o glywed gennych chi!

Golygydd y Newyddlen: **Neil Sumner**
E-bost: post@addoldaicymru.org
Ffôn: **01766 515590**

Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru
Capel Peniel
Tremadog
Porthmadog
LL49 9PS

Elusen Gofrestredig 1084030
Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant 3870343